

## Beth am y dyfodol?

*“...ar y graig hon yr adeiladaf fy eglwys, ac ni chaiff holl bwerau Hades y trechaf arni.” (adn. 18)*

### Beth am ddarllen Mathew 16:13–20 ac yna myfyrio

Ddoe, fe'n hatgoffwyd fod yn rhaid i'r Eglwys gael ei diwygio er mwyn wynebu her yr unfed ganrif ar hugain. Er mwyn cael ei diwygio, mae angen iddi edrych yn ôl, nid pum cant o flynyddoedd i gyfnod y Diwygiad Protestannaidd, ac nid dau gant a hanner o flynyddoedd i gyfnod y Diwygiad Methodistaidd, ond dwy fil o flynyddoedd i'r amser pan oedd dyfroedd y bywyd yn tarddu yn newydd o'r graig.

Wrth gynghori pobl sydd yn paratoi i briodi, byddaf bob amser yn galw i sylw yr hyn a fwriadodd Duw ar gyfer priodas yng Ngardd Eden. Dim ond wrth weld, a gweld yn glir, beth oedd bwriadau gwreiddiol Duw, y byddwn mewn sefyllfa i fedru adnabod y peryglon sydd yn siŵr o ddilyn wrth symud o'r patrwm gwreiddiol yma. Yn yr un modd, credaf y dylai'r Eglwys yn ein dydd ni edrych yn ôl ar y patrwm gwreiddiol, er mwyn deall sut y bu i'r Arglwydd gynllunio ei Eglwys i wasanaethu yn y byd. O weld hyn, byddwn hefyd yn medru gweld y peryglon a all ei hwynebu, ynghyd â gweld pa mor bell yr ydym wedi crwydro oddi wrth batrwm Duw.

Wrth wyllo rhaglen deledu ar gyflwr yr Eglwys, gofynnodd rhywun gwestiwn: “A fydd yr Eglwys Gristnogol yn dal i fodoli ar ddiwedd yr unfed ganrif ar hugain?” Mae'n amlwg mai y teimlad cyffredinol ymysg y bobl yno, pobl nad oeddent yn Gristnogion, oedd fod yr Eglwys yn amherthnasol, ac ymhen canrif, bydd wedi diflannu. Wrth wrando ar y drafodaeth, roeddwn yn gwenu oherwydd daeth yr adnod sydd ar ben y dudalen i'm cof. “Byddaf yn adeiladu fy Eglwys ac ni fydd pyrth uffern yn ei gorchfygu hi.” Eto, er bod yr Arglwydd wedi addo na fydd yr Eglwys yn cael ei gorchfygu, nid yw'n dilyn fod yr Eglwys yn y man y dylai fod yn ysbrydol. Mae angen dybryd arni am ddiwygiad ysbrydol. Heb hynny, does fawr o obaith y bydd yr unfed ganrif ar hugain yn cael ei throï â'i phen i waered.

### Beth am fynd ymlaen i ddarllen:

1 Cor. 3:5–16; Eff. 2:19–22; 4:11–16

### Meddyliwch am y cwestiynau hyn:

1. Sut mae Iesu yn adeiladu ei Eglwys?
2. Pa ran yr ydym ni yn ei chwarae?

### Gweddi

Arglwydd Iesu Grist, fe fu i ti rymuso dy ddilynwyr cynnar, gan eu galluogi i droi y byd â'i ben i waered. Cyffwrdd â'n bywyd ni yn yr un ffordd. Maddau i ni ac adnewyddu ni, a hynny er mwyn dy enw dy hun. Amen.